**Cofnodion deugeinfed cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd**

Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Dydd Mawrth 12 Mai 2015
18.00

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

Russell George AC (Ceidwadwyr Cymreig, Sir Drefaldwyn)

Antoinette Sandbach AC (Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru)

Mike Hedges AC (Llafur Cymru, Dwyrain Abertawe)

**Yn bresennol:**

Andrew Stumpf – Glandŵr Cymru

Laura Lewis – Glandŵr Cymru

Jamie McNamara – Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Alan Goulbourne – Artist preswyl ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu

Jackie Humphries – Glandŵr Cymru

David Alston

Sarah Pace

Gareth Williams

Gillian Billsborough – Cyfoeth Naturiol Cymru

Laura Murton – Swyddfa Julie James AC

Tracy Simpson – Addo Creative

Lorraine Griffiths – Cadw

Thomas Maloney

Dawn Roberts

Gareth Jones – Urban Regen

Donna Coyle

Rob Frowen

Carole Jacob

Dechreuodd y cyfarfod am 18.10

**Eitem 1: Cyflwyniad gan Tracy Simpson, Addo Creative**

**Defnyddio'r dyfrffyrdd yng Nghymru i gysylltu cymunedau â chelf.**

Amlinellodd Tracy Simpson y ffyrdd y gall cymunedau ymgysylltu â dŵr, a sut y gellir gwneud celf yn hygyrch ar y dyfrffyrdd. Sefydlwyd Addo gan Sarah Pace a Tracy Simpson,

ac mae ganddynt dros 20 mlynedd o brofiad o weithio yn y celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt mewn modd deinamig a sefydledig, a phrofiad o gychwyn, comisiynu a chynhyrchu amrywiaeth eang o brosiectau celf cyfoes. Gan weithio gydag artistiaid, grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol, partneriaid sector preifat a'r sector cyhoeddus, ac ar ran y grwpiau hyn, rydym wedi curadu, rheoli a chynhyrchu: celf a rhaglenni cyhoeddus parhaol a dros dro; prosiectau artistiaid preswyl; dogfennau strategaeth a fframwaith; astudiaethau ymchwil, gwerthuso a dichonoldeb; ac arddangosfeydd a digwyddiadau amrywiol mewn mannau celf a di-gelf.

Mae'r cyflwyniad ar gael ar gais gan enquiries.wales@canalrivertrust.org.uk

**Sesiwn holi ac ateb**

**Jamie McNamara:** A ydych yn credu bod dyfrffyrdd yn fan cychwyn da ar gyfer prosiectau celf cymunedol?

**Tracy Simpson:** Rydym wedi canfod bod pobl yn gallu ymgysylltu â dŵr a'u bod yn gallu ymgysylltu â gwaith sy'n dangos y broses hon.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan** Alan Goulbourne, artist preswyl ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu

**Y wybodaeth ddiweddaraf am y  prosiect Artist preswyl ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu**

Rhoddodd Alan Goulbourne y wybodaeth ddiweddaraf am ei waith fel artist preswyl ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, ac am ei waith yn gyffredinol. Artist wedi'i leoli yng Nghaerdydd yw Alan Goulbourne, a dechreuodd ei gyfnod preswyl ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu ym mis Chwefror am bedwar mis. Mae ei waith cyfredol yn cynnwys creu gwaith cerfluniol mewn orielau a mannau cyhoeddus. Mae Alan newydd dreulio cyfnod fel artist preswyl yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac mae wedi arddangos a gwneud gwaith yn Bahrain ac ar draws y DU yn y gorffennol.

**Sesiwn holi ac ateb**

**Jamie McNamara:** Beth ysbrydolodd eich gwaith?

**Alan Goulbourne:** Mae fy ngwaith yn dibynnu ar broses o weithredu trefn ac anhrefn, i bob pwrpas ar hap, er mwyn gyrru dilyniant o un foment i rywbeth sy'n frith â chymhlethdod yn weledol. Gyda'r cyfnod preswyl hwn, roeddwn yn creu corff o waith sy'n rhyngweithio â'r gymuned a'r amgylchedd yn yr ardal, gan adlewyrchu hanes a dyfodol perthnasol y gamlas

**Lorraine Griffiths:** Beth ddigwyddodd i'r cerflun terfynol?

**Alan Goulbourne:** Nid oedd unrhyw le i'w storio, felly cafodd ei ddatgysylltu.

**Eitem 3:** Unrhyw Fater Arall

Dim

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 22 Medi 2015.**